

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

RHAN 1

TROSOLWG O'R DDEDDF A THERMAU ALLWEDDOL A DDEFNYDDIR YN Y
DDEDDF

Trosolwg

1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

Termau allweddol

2 Llety ymwelwyr

3 Darparwr llety ymwelwyr

RHAN 2

COFRESTR O DDARPARWYR LLETY YMWELWYR

4 Dyletswydd i gynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

5 Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig

6 Cyhoeddi gwybodaeth sydd yn y gofrestr

7 Cofrestru: pwerau i wneud darpariaeth atodol etc.

RHAN 3

ARDOLL YMWELWYR

PENNOD 1

CYMHWYSO A GWEITHREDU'R ARDOLL, A CHYFRADDAU'R ARDOLL

Pŵer prif gyngor i gyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei ardal

8 Pŵer prif gyngor i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr

Cymhwyso a gweithredu'r ardoll

- 9 Arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr
- 10 Atebolrwydd am dalu'r ardoll
- 11 Cyfrifo swm yr ardoll sy'n daladwy

Cyfraddau'r ardoll

- 12 Cyfraddau'r ardoll
- 13 Dyfarnu pa gyfradd sy'n gymwys
- 14 Ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll

Ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll

- 15 Cais am ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll

PENNOD 2

RHOI CYFRIF AM YR ARDOLL, A THALU'R ARDOLL

Ffurflenni

- 16 Dyletswydd i ddychwelyd ffurflen ardoll mewn cysylltiad â chyfnod cyfrifyddu
- 17 Ffurflen flynyddol neu chwarterol
- 18 Ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni blynyddol
- 19 Ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni chwarterol

Talu

- 20 Talu'r ardoll

ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll

- 21 ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll

PENNOD 3

DEFNYDD PRIF GYNGHORAU O ENILLION YR ARDOLL

- 22 Cyfrif prif gyngor ar gyfer enillion yr ardoll
- 23 Defnyddio enillion yr ardoll ar gyfer rheoli a gwella cyrchfannau
- 24 Adroddiad ar ddefnyddio enillion yr ardoll

PENNOD 4

CYFLWYNO, NEWID NEU DDIDDYMU'R ARDOLL

- 25 Ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll
- 26 Cyflwyno'r ardoll a newid neu ddiddymu'r ardoll
- 27 Arosiadau dros nos nad effeithir arnynt gan gyflwyno neu newid yr ardoll
- 28 Dehongli'r Bennod

PENNOD 5
ACHOSION ARBENNIG

Busnes perthnasol

29 Ystyr “busnes perthnasol” yn y Bennod hon

Partneriaethau a chyrff anghorfforedig

30 Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig
31 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig

Newid o ran personau sy'n darparu llety ymwelwyr

32 Marwolaeth, analluedd ac ansolfedd
33 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd
34 Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol

PENNOD 6

DARPARIAETH AMRYWIOL SY'N YMWNEUD Â'R ARDOLL

35 Llety ymwelwyr mewn mangre o fewn ardal mwy nag un prif gyngor
36 Trefniadau â thrydydd parti i gasglu'r ardoll etc. ar ran y darparwr
37 Pŵer Gweinidogion Cymru i osod gofynion o ran hysbysebu a bilio etc.
38 Prif gyngor yn arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon etc.

RHAN 4

DARPARIAETH AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Amrywiol

39 Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru
40 Pŵer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd

Cyffredinol

41 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.
42 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon
43 Dehongli
44 Dod i rym
45 Enw byr

Atodlen 1 - Diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Senedd Cymru i sefydlu cofrestr o bersonau sy'n darparu llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru; i roi'r pŵer i brif gynghorau i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn eu hardaloedd; i wneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016; ac at ddibenion cysylltiedig.

5 **Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

RHAN 1

TROSOLWG O'R DDEDDF A THERMAU ALLWEDDOL A DDEFNYDDIR YN Y DDEDDF

Trosolwg

1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

- (1) Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf hon yn cynnwys (yn ychwanegol at y trosolwg hwn) ddiffiniad o "llety ymwelwyr" ac o "darparwr llety ymwelwyr".
- (2) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.
- (3) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon yn rhoi'r pŵer i brif gynghorau yng Nghymru i gyflwyno yn eu hardaloedd ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr, ac yn rhoi swyddogaethau sy'n ymwneud â chasglu a rheoli'r ardoll i Awdurdod Cyllid Cymru.
- (4) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon—
 - (a) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chanllawiau ynghylch y Ddeddf hon a ddyroddir gan Weinidogion Cymru,
 - (b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i estyn y Ddeddf hon fel ei bod yn gymwys mewn perthynas â docfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau, ac
 - (c) yn cynnwys darpariaethau cyffredinol.

Termau allweddol

2 Llety ymwelwyr

- (1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "llety ymwelwyr" yw—
 - (a) llety mewn gwesty, tŷ llety neu llety gwely a brecwast, neu llety tebyg arall;
 - (b) llety mewn hostel ieuencid neu mewn byncws, neu llety tebyg arall;
 - (c) llain neu ardal—
 - (i) a ddarperir ar gyfer gwerysyla;

- (ii) a ddarperir ar gyfer cartref symudol nad yw wedi ei leoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle;
- (d) llety (heblaw llety a grybwyllir ym mharagraff (c)) mewn safle gwersylla, safle carafannau, parc gwyliau neu ganolfan wyliau, neu mewn lle arall tebyg;
- 5 (e) llety (heblaw llety a grybwyllir yn y paragraffau blaenorol) –
- (i) mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall sydd wedi ei leoli neu ei lleoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle, a
- (ii) sydd wedi ei roi ar gael (pa un ai yn barhaol neu o bryd i'w gilydd), ar sail tymor byr, at ddibenion teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol;
- 10 (f) llety hunanddarpar (heblaw llety a grybwyllir yn y paragraffau blaenorol) sydd wedi ei roi ar gael (pa un ai yn barhaol neu o bryd i'w gilydd), ar sail tymor byr, at ddibenion teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol;
- (g) unrhyw fath arall o lety sydd wedi ei roi ar gael (pa un ai yn barhaol neu o bryd i'w gilydd), ar sail tymor byr, at ddibenion teithio busnes neu deithio hamdden neu deithiau addysgol.
- 15 (2) Ond nid yw llety a ddisgrifir yn is-adran (1) yn llety ymwelwyr os yw –
- (a) ar safle Sipsiwn a Theithwyr;
- (b) mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall nad yw wedi ei leoli neu ei lleoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle.
- 20 (3) At ddibenion is-adran (1), rhoddir llety ar gael ar sail tymor byr os rhoddir ef ar gael ar gyfer arosiadau o 31 o nosweithiau neu lai na hynny.
- (4) Yn yr adran hon –
- 25 ystyr “cartref symudol” (“*mobile home*”) yw unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sy'n gallu cael ei symud o'r naill le i'r llall (pa un ai drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd) ac unrhyw gerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo, ond nid yw'n cynnwys –
- (a) pabell;
- 30 (b) cerbydau rheilffyrdd sydd am y tro ar gledrau sy'n ffurfio rhan o system reilffyrdd;
- (c) awyren;
- (d) llestr;
- 35 ystyr “safle Sipsiwn a Theithwyr” (“*Gypsy and Traveller site*”) yw tir a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i osod cartrefi symudol arno sy'n rhoi llety i'r canlynol –
- (a) pobl sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys –
- 40 (i) pobl sydd, ar sail eu hanghenion addysg neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn

barhaol;

(ii) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio);

5 (b) unrhyw bobl eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon er mwyn –

(a) darparu bod, neu nad yw, math o lety, neu lety o ddisgrifiad penodol, yn llety ymwelwyr;

10 (b) amrywio'r disgrifiad o fath o lety.

3 Darparwr llety ymwelwyr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Mae person yn ddarparwr llety ymwelwyr ("DLIY") os yw'r person hwnnw –

(a) yng nghwrs masnach neu fusnes,

15 (b) yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru, ac

(c) yn feddiannydd ar y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr.

(3) Mae person yn darparu llety ymwelwyr os yw'r person hwnnw yn ymrwymo i gontract y mae gan un neu ragor o bobl hawlogaeth i breswyllo yn y llety am un neu ragor o nosweithiau odano neu o ganlyniad iddo.

20

(4) Yn is-adran(3), nid yw "contract" yn cynnwys contract gwasanaeth, contract prentisiaeth, na chontract am wasanaethau y mae person sydd â hawlogaeth i breswyllo yn y llety ymwelwyr yn darparu gwasanaethau odano i'r DLIY.

(5) Yn is-adrannau (2) a (3), mae "person" yn cynnwys dau berson neu ragor sy'n gweithredu mewn partneriaeth (yn ogystal â dau berson neu ragor sy'n gweithredu fel corff anghorfforedig, neu gorff corfforedig).

25

RHAN 2

COFRESTR O DDARPARWYR LLETY YMWELWYR

4 Dyletswydd i gynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gadw cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ("y gofrestr").

(2) Rhaid i gofnod yn y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn –

(a) enw'r darparwr llety ymwelwyr ("DLIY") y mae'r cofnod yn ymwneud ag ef,

(b) unrhyw enw masnachu a ddefnyddir gan y DLIY,

(c) cyfeiriad priodol y DLIY,

35

(d) datganiad ynghylch a yw'r DLIY yn unigolyn, yn bartneriaeth, yn gorff corfforedig neu'n gorff anghorfforedig,

(e) enw a chyfeiriad (gan gynnwys sir neu fwrdeistref sirol) y fangre lle y mae'r DLIY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr, ac

(f) y math o lety ymwelwyr y mae'r DLIY yn ei ddarparu neu'n cynnig ei ddarparu yn y fangre honno.

5 (3) Caiff y gofrestr gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(4) Yn is-adran (2), ystyr "cyfeiriad priodol" –

(a) yn achos partneriaeth gofrestredig, corff corfforedig neu gorff anghorfforedig, yw cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth neu'r corff, a

10 (b) mewn unrhyw achos arall, yw cyfeiriad hysbys diwethaf y person.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (2) er mwyn ychwanegu, amrywio neu ddileu disgrifiad o wybodaeth a bennir yn yr is-adran honno.

5 Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig

15 (1) Rhaid i DLIY fod yn gofrestredig o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â phob mangre yng Nghymru lle y mae'r DLIY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth at ddibenion esemptio DLIY o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau rhag y gofyniad o dan is-adran (1) i gofrestru.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) –

(a) pennu disgrifiad o DLIY drwy gyfeirio at –

20 (i) y math o lety ymwelwyr a ddarperir gan y DLIY;

(ii) natur neu gynnwys y contractau y darperir y llety odanynt;

(iii) natur neu statws y DLIY, neu unrhyw nodwedd benodol arno;

(iv) natur neu statws unrhyw berson y mae'r DLIY yn darparu llety iddo, neu unrhyw nodwedd benodol ar y person hwnnw;

25 (v) unrhyw fater arall;

(b) diwygio'r Ddeddf hon.

6 Cyhoeddi gwybodaeth sydd yn y gofrestr

Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi, mewn unrhyw fodd y maent yn ystyried ei fod yn briodol, wybodaeth sy'n deillio o'r gofrestr.

30 7 Cofrestru: pwerau i wneud darpariaeth atodol etc.

Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch y gofrestr a darpariaeth ynghylch gofynion cofrestru, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) ddarpariaeth ynghylch y canlynol –

(a) cymhwyso'r Rhan hon i bartneriaethau a chyrrff anghorfforedig;

35 (b) y gweithdrefnau ar gyfer cofrestru (gan gynnwys amrywio a chanslo cofrestriad);

(c) awdurdodi datgelu gwybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr neu ei gwneud ofynnol bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei datgelu;

- (d) gorfodi'r Rhan hon, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer –
- (i) troseddau neu gosbau sy'n ymwneud â methiannau i gydymffurfio ag unrhyw ofynion yn neu o dan y Rhan hon;
 - (ii) naill ai adolygiadau neu apelau neu'r ddau.

RHAN 3

ARDOLL YMWELWYR

PENNOD 1

CYMHWYSO A GWEITHREDU'R ARDOLL, A CHYFRADDAU'R ARDOLL

Pŵer prif gyngor i gyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei ardal

8 Pŵer prif gyngor i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr

- (1) Caiff prif gyngor (yn unol â Phennod 4) gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn ei ardal.
- (2) Mae ardoll sy'n daladwy yn rhinwedd y Rhan hon i'w galw'n "ardoll ymwelwyr" (a chyfeirir ati yn y Ddeddf hon fel "yr ardoll").
- (3) Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at "llety ymwelwyr" (ac eithrio yn adran 13(4)) yn gyfeiriadau at lety ymwelwyr a ddarperir mewn mangre yn ardal prif gyngor sydd wedi cyflwyno'r ardoll.
- (4) Mae'r ardoll i'w chasglu a'i rheoli ar ran prif gyngor gan Awdurdod Cyllid Cymru, yn unol â'r Ddeddf hon ac â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6).

Cymhwyso a gweithredu'r ardoll

9 Arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr

- (1) At ddibenion y Rhan hon, mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd –
- (a) os oes gan un neu ragor o bobl hawlogaeth, o dan gontract, i breswyllo yn y llety ymwelwyr am un neu ragor o nosweithiau,
 - (b) os darperir y llety i'r bobl hynny yng nghwrs masnach neu fusnes a gynhelir gan y darparwr llety ymwelwyr,
 - (c) os nad yw'r llety yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa unrhyw un neu ragor o'r bobl hynny, a
 - (d) os yw unrhyw un neu ragor o'r bobl hynny yn mynd i mewn i'r llety yn unol â'r contract.
- (2) Ond nid yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd –
- (a) os yw'r contract yn rhoi hawlogaeth i un neu ragor o unigolion penodol i breswyllo yn y llety ymwelwyr (pa un ai ag unrhyw berson arall ai peidio), a bod gan bob unigolyn penodol hawlogaeth o dan y contract i breswyllo yno –
 - (i) am fwy nag 31 o nosweithiau (pa un a yw'r nosweithiau hynny yn olynol ai peidio), a

(ii) pob noson y mae'r contract yn rhoi hawlogaeth i breswyllo yn y llety hwnnw;

(b) os yw'r llety –

(i) wedi ei ddarparu o dan adran 4 (llety) neu o dan Ran 6 (cymorth i geiswyr lloches, etc.) o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (p. 33);

(ii) wedi ei ddarparu gan, neu ar ran, yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â gofyniad a osodir o dan adran 3(6) (darpariaethau cyffredinol) o Ddeddf Mechnïaeth 1976 (p. 63);

(iii) wedi ei ddarparu o dan Ran 1 (trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau prawf) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 (p. 21) at y dibenion prawf (o fewn ystyr "the probation purposes" yn adran 1 o'r Ddeddf honno);

(iv) yn ymwneud â chyfleusterau a ddarperir o dan baragraff 9 o Atodlen 10 (mechnïaeth mewnfudo) i Ddeddf Mewnfudo 2016 (p. 19) ar gyfer lletya person mewn cyfeiriad a bennir mewn amod mechnïaeth mewnfudo.

(3) Yn yr adran hon, nid yw "contract" yn cynnwys contract gwasanaeth, contract prentisiaeth, na chontract am wasanaethau y mae person sydd â hawlogaeth i breswyllo yn y llety ymwelwyr yn darparu gwasanaethau odano i'r darparwr llety ymwelwyr.

(4) Y darparwr llety ymwelwyr, mewn cysylltiad ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr, yw'r darparwr llety ymwelwyr –

(a) sy'n darparu'r llety y mae'r arhosiad yn digwydd ynddo, a

(b) sy'n feddiannydd ar y fangre lle y darperir y llety hwnnw.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon at ddibenion ychwanegu, dileu neu newid disgrifiadau o amgylchiadau pryd y mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd neu pryd nad yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd.

10 Atebolrwydd am dalu'r ardoll

(1) Y person sy'n atebol am dalu'r ardoll ar arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yw'r darparwr llety ymwelwyr.

(2) Mae atebolrwydd am dalu'r ardoll ar arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn codi pan fydd person yn mynd i mewn i'r llety ymwelwyr yn unol â'r contract a roddodd hawlogaeth i'r person i breswyllo yn y llety.

11 Cyfrifo swm yr ardoll sy'n daladwy

Cyfrifir swm yr ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr drwy wneud y canlynol –

(a) lluosï –

(i) nifer y bobl sydd â hawlogaeth i breswyllo yn y llety o dan y contract, â

(ii) nifer y nosweithiau y mae gan y bobl hynny hawlogaeth i breswyllo yn y llety o dan y contract, yna

(b) lluosï'r rhif sy'n deillio o hynny â chyfradd yr ardoll sy'n gymwys mewn perthynas â'r llety (gweler adran 12).

Cyfraddau'r ardoll

12 Cyfraddau'r ardoll

(1) Mae cyfraddau'r ardoll fel a ganlyn –

- (a) y gyfradd is yw £0.75,
- (b) y gyfradd uwch yw £1.25, ac
- (c) y gyfradd o ddim yw £0,

ond mae hyn yn ddarostyngedig i gyflwyno premiwm gan brif gyngor (gweler adran 14).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (1)(a) neu (b) i osod swm y naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu'r ddwy –

- (a) cyfradd is yr ardoll;
- (b) cyfradd uwch yr ardoll.

13 Dyfarnu pa gyfradd sy'n gymwys

(1) Mae cyfradd is yr ardoll yn gymwys mewn perthynas ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr sydd –

- (a) yn llain neu'n ardal a ddarperir ar gyfer gwerysilla, neu
- (b) yn ystafell aml-wely neu'n ystafell arall neu'n ardal arall a ddarperir fel arfer ar y sail y gellir ei rhannu â phobl eraill sy'n preswyllo yn yr ystafell aml-wely honno, yn yr ystafell arall honno neu yn yr ardal arall honno o dan contract gwahanol.

(2) Mae cyfradd uwch yr ardoll yn gymwys mewn perthynas ag arhosiad dros nos ym mhob llety ymwelwyr arall, ac eithrio llety ymwelwyr sy'n ddarostyngedig i gyfradd o ddim yr ardoll.

(3) Mae cyfradd o ddim yr ardoll yn gymwys mewn perthynas ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr sydd wedi ei drefnu gan, neu wedi ei ddarparu ar ran, prif gyngor (fel awdurdod tai lleol) o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) (digartrefedd).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (1), (2) neu (3) er mwyn –

- (a) ychwanegu math o lety ymwelwyr neu lety o ddisgrifiad penodol;
- (b) amrywio disgrifiad o lety ymwelwyr neu o fath o lety ymwelwyr;
- (c) dileu math o lety ymwelwyr, neu lety o ddisgrifiad penodol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch –

- (a) y dogfennau neu'r wybodaeth arall y gellir dibynnu arnynt neu arni i brofi bod y gyfradd o ddim neu'r gyfradd is yn gymwys i arhosiad dros nos penodol mewn llety ymwelwyr;
- (b) gwneud trefniadau ar gyfer dyroddi talebau at ddiben profi bod y gyfradd o ddim yn gymwys i arhosiad dros nos penodol mewn llety ymwelwyr, ac mewn perthynas â dyroddi talebau o'r fath.

14 Ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll

(1) Caiff prif gyngor, mewn perthynas â'i ardal (ac yn unol â Phennod 4), ychwanegu swm ychwanegol at y naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu at y ddwy –

- (a) cyfradd is yr ardoll;
 - (b) cyfradd uwch yr ardoll.
- (2) Cyfeirir yn y Ddeddf hon at swm a ychwanegir at yr ardoll yn rhinwedd is-adran (1) fel premiwm.
- 5 (3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu'r uchafswm y caiff prif gyngor ei ychwanegu at y naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu at y ddwy –
- (a) y gyfradd is;
 - (b) y gyfradd uwch.

Ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll

10 **15 Cais am ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll**

- (1) Caiff person a ddarparodd gydnabyddiaeth, o dan gontract, mewn cysylltiad ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr wneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") am ad-daliad o swm sy'n gyfwerth â'r ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r arhosiad cyfan hwnnw neu â rhan ohono –
- 15 (a) os arhosodd person dros nos yn y llety ymwelwyr o dan y contract oherwydd nad oedd y person hwnnw yn gallu preswyllo yn ei unig breswylfa neu yn ei brif breswylfa oherwydd risg i'w iechyd, i'w ddiogelwch neu i'w les;
- (b) os darparwyd y llety ymwelwyr i berson oherwydd bod y person hwnnw, ar adeg yr arhosiad, fel arall yn ddigartref (o fewn ystyr adran 55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7));
- 20 (c) os, o ran person a arhosodd dros nos yn y llety ymwelwyr o dan y contract –
- (i) oedd y person hwnnw yn cael budd-dal anabledd, a
 - (ii) oedd person arall wedi mynd gyda'r person hwnnw ar yr arhosiad dros nos, pa un a arhosodd y person arall hwnnw yn y llety o dan gontract gwahanol ai peidio.
- 25 (2) Rhaid i gais o dan is-adran (1) gael ei wneud o fewn 30 o ddiwrnodau i'r diwrnod olaf yr oedd gan berson hawlogaeth o dan y contract i breswyllo yn y llety ymwelwyr.
- (3) Pan ddarparodd mwy nag un person gydnabyddiaeth mewn cysylltiad ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr, caiff y personau hynny wneud cais ar y cyd o dan is-adran (1).
- 30 (4) Rhaid i ACC, os yw'n caniatáu'r cais –
- (a) ad-dalu swm sy'n gyfwerth â swm yr ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r arhosiad, neu
 - (b) pan fo ACC yn ystyried na ddylid gwneud taliad –
 - (i) mewn cysylltiad â phob person a arhosodd dros nos yn y llety ymwelwyr o dan y contract;
 - (ii) mewn cysylltiad â phob noson pan arhosodd un neu ragor o bobl dros nos yn y llety ymwelwyr o dan y contract,
- ad-dalu swm sy'n gyfwerth â swm yr ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob person y mae ACC yn ystyried y dylid gwneud taliad mewn perthynas ag ef ac â phob noson y mae ACC yn ystyried y dylid gwneud taliad mewn perthynas â hi.
- 40

- (5) Yn is-adran (1)(c)(i), ystyr “budd-dal anabledd” yw –
- (a) Iwfans byw i’r anabl o dan adran 71 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (p. 4) neu adran 71 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1992 (p. 7);
 - (b) taliad annibyniaeth personol o dan Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5) neu Ran 5 o Orchymyn Diwygio Lles (Gogledd Iwerddon) 2015 (O.S. 2015/2006 (G.I. 1));
 - (c) Iwfans gweini o dan adran 64 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 neu adran 64 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1992;
 - (d) Iwfans gweini cyson o dan adran 104 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 neu adran 104 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 1992;
 - (e) taliad anabledd oedolion o dan Reoliadau Cymorth Anabledd ar gyfer Pobl o Oedran Gweithio (Yr Alban) 2022 (O.S.A. 2022/54) neu Reoliadau Cymorth Anabledd ar gyfer Pobl o Oedran Gweithio (Darpariaethau Trosiannol a Diwygio Amrywiol) (Yr Alban) 2022 (O.S.A. 2022/217);
 - (f) taliad anabledd plant o dan Reoliadau Cymorth Anabledd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2021 (O.S.A. 2021/174);
 - (g) taliad annibyniaeth y lluoedd arfog o dan erthygl 24A o Orchymyn y Lluoedd Arfog a’r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011 (O.S. 2011/517);
 - (h) Iwfans gweini cyson o dan –
 - (i) erthygl 14 neu 43 o Gynllun Anafiadau Personol (Sifiliaid) 1983 (O.S. 1983/686);
 - (ii) erthygl 8 o Orchymyn Pensiynau Lluoedd y Llynges, y Fyddin a’r Llu Awyr etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006 (O.S. 2006/606);
 - (i) atodiad symudedd o dan –
 - (i) erthygl 25A neu 48A o Gynllun Anafiadau Personol (Sifiliaid) 1983 (O.S. 1983/686);
 - (ii) erthygl 20 o Orchymyn Pensiynau Lluoedd y Llynges, y Fyddin a’r Llu Awyr etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006 (O.S. 2006/606).
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio’r adran hon at ddibenion –
- (a) ychwanegu, dileu neu newid disgrifiadau o amgylchiadau pryd y caiff person wneud cais i ACC o dan is-adran (1);
 - (b) diwygio’r diffiniad o “budd-dal anabledd”.

PENNOD 2

RHOI CYFRIF AM YR ARDOLL, A THALU’R ARDOLL

Ffurflenni

16 Dyletswydd i ddychwelyd ffurflen ardoll mewn cysylltiad â chyfnod cyfrifyddu

- (1) Rhaid i ddarparwr llety ymwelwyr (“DLIY”) ddychwelyd ffurflen i ACC, sy’n ymwneud â’r ardoll mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu.

- (2) Rhaid i DLIY dychwelyd ffurflen mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu ni waeth a oes unrhyw arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr wedi digwydd yn y llety y mae'n ei ddarparu yn ystod y cyfnod cyfrifyddu y mae'r ffurflen yn ymwneud ag ef.
- (3) Rhaid i'r ffurflen gynnwys –
- 5 (a) asesiad o swm yr ardoll sy'n daladwy gan y DLIY mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu, a
- (b) naill ai –
- 10 (i) datganiad gan y DLIY fod yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y ffurflen, ac mewn unrhyw ddogfen sy'n mynd gyda'r ffurflen, yn wir ac yn gyflawn hyd eithaf gwybodaeth y DLIY, neu
- (ii) os yw'r DLIY yn awdurdodi asiant neu drydydd parti arall (gweler adran 36) i gwblhau'r ffurflen ar ran y DLIY, ardystiad gan yr asiant neu'r trydydd parti arall fod y DLIY wedi gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw.
- (4) Rhaid dychwelyd y ffurflen ar ddyddiad ffeilio'r ffurflen neu cyn hynny.
- 15 (5) Dyddiad ffeilio'r ffurflen –
- (a) yn achos ffurflenni blynyddol, yw 30 Ebrill yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r ffurflen yn ymwneud â hi;
- (b) yn achos ffurflenni chwarterol, yw un mis ar ôl diwedd y cyfnod cyfrifyddu y mae'r ffurflen yn ymwneud ag ef.
- 20 (6) Yn y Bennod hon, mae cyfeiriad at "darparwr llety ymwelwyr" yn gyfeiriad at ddarparwr llety ymwelwyr sy'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yn ardal prif gyngor sydd wedi cyflwyno'r ardoll.

17 Ffurflen flynyddol neu chwarterol

- 25 (1) Caiff DLIY dychwelyd ffurflen flynyddol mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol (ond caiff ddewis dychwelyd ffurflenni chwarterol) –
- (a) os yw'r DLIY yn disgwyl na fydd swm yr ardoll y bydd y DLIY yn atebol am ei dalu, mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, yn fwy na £1,000, a
- (b) os nad oedd y DLIY (os dychwelodd y DLIY ffurflen mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol flaenorol, neu unrhyw ran o'r flwyddyn honno) yn atebol am dalu swm o'r ardoll a oedd yn fwy na £1,000 mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol flaenorol.
- 30 (2) Rhaid i DLIY na chaniateir iddo dychwelyd ffurflen flynyddol mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol, neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny, dychwelyd ffurflenni chwarterol.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau –
- 35 (a) diwygio is-adran (1)(a) a (b) i newid y ffigur a bennir yn y paragraffau hynny;
- (b) gwneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth y caiff DLIY ei darparu i ACC, neu y mae rhaid iddo ei darparu i ACC, os yw'r DLIY yn dymuno dychwelyd ffurflen flynyddol.
- 40 (4) Ni chaiff newid i ba mor aml y dychwelir ffurflen gymryd effaith ond ar ddechrau blwyddyn ariannol.

- (5) Mae is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i adran 120D o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) (gwahardd newid pa mor aml y dychwelir ffurflenni pan fo gan DLIY bwynt cosb).

18 Ystyr “cyfnod cyfrifyddu”: ffurflenni blynyddol

- 5 (1) Mae’r adran hon yn gymwys mewn perthynas â DLIY sy’n penderfynu o dan adran 17 ddychwelyd ffurflen flynyddol mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol.
- (2) Y cyfnod cyfrifyddu yw’r flwyddyn ariannol, yn ddarostyngedig i is-adran (3).
- (3) Pan fo’r DLIY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, mae cyfnod cyfrifyddu cyntaf y DLIY –
- 10 (a) yn dechrau ar y dyddiad y mae’r DLIY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, a
(b) yn dod i ben â diwedd y flwyddyn ariannol y dechreuodd y cyfnod cyfrifyddu ynddi.
- (4) At ddiben yr adran hon ac adran 19, mae person yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy –
- 15 (a) ar y dyddiad y mae’r person hwnnw yn darparu, neu’n cynnig darparu, llety ymwelwyr am y tro cyntaf mewn ardal lle y mae’r ardoll wedi cael ei chyflwyno (pa un a yw’r person hwnnw wedi darparu llety ymwelwyr yn yr ardal honno, neu yn rhywle arall, cyn y dyddiad hwnnw ai peidio), neu
- 20 (b) pan fo’r person hwnnw yn flaenrol wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn ardal lle y mae’r ardoll wedi cael ei chyflwyno, ac yna wedi peidio â gwneud hynny, ar y dyddiad y mae’r person hwnnw yn ailgychwyn darparu, neu gynnig darparu, llety ymwelwyr mewn ardal lle y mae’r ardoll wedi cael ei chyflwyno.
- 25 (5) Yn is-adran (4), mae “person” yn cynnwys dau berson neu ragor sy’n gweithredu mewn partneriaeth (yn ogystal â dau berson neu ragor sy’n gweithredu fel corff anghorfforedig, neu gorff corfforedig).

19 Ystyr “cyfnod cyfrifyddu”: ffurflenni chwarterol

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys mewn perthynas â DLIY sy’n penderfynu, neu y mae’n ofynnol iddo, o dan adran 17 ddychwelyd ffurflenni chwarterol.
- 30 (2) Y cyfnod cyfrifyddu yw chwarter calendr, yn ddarostyngedig i is-adran (3).
- (3) Pan fo’r DLIY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, mae cyfnod cyfrifyddu cyntaf y DLIY –
- (a) yn dechrau ar y dyddiad y mae’r DLIY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, a
(b) yn dod i ben â diwedd y chwarter calendr y dechreuodd y cyfnod cyfrifyddu ynddo.
- 35 (4) Yn yr adran hon, ystyr “chwarter calendr” yw cyfnod o 3 mis sy’n dod i ben â 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr.

Talu

20 Talu'r ardoll

- (1) Rhaid i DLIY sy'n dychwelyd ffurflen dalu i ACC swm yr ardoll a nodir yn y ffurflen yn unol ag adran 16(3)(a).
- (2) Rhaid i unrhyw ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad â ffurflen gael ei thalu i ACC ar ddyddiad ffeilio'r ffurflen neu cyn hynny (gweler adran 16(5)).
- (3) Gweler y darpariaethau a ganlyn yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) am ddarpariaeth ynghylch talu symiau o'r ardoll o dan amgylchiadau eraill –
- adran 42(4A) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i gywiriad a wneir i ffurflen gan ACC);
- adran 45(4) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i ffurflen yn ystod ymholiad);
- adran 50(4) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i ffurflen ar ôl cwblhau ymholiad);
- adran 52(5) (swm sy'n daladwy yn unol â dyfarniad ACC);
- adran 61(2) (swm sy'n daladwy yn unol ag asesiad ACC).

ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll

21 ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll

Mae Atodlen 1 yn diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i wneud –

- (a) darpariaeth ynghylch swyddogaethau ACC mewn perthynas â'r ardoll, a
- (b) diwygiadau amrywiol eraill i'r Ddeddf honno.

PENNOD 3

DEFNYDD PRIF GYNGHORAU O ENILLION YR ARDOLL

22 Cyfrif prif gyngor ar gyfer enillion yr ardoll

- (1) Rhaid i brif gyngor sydd wedi cyflwyno'r ardoll gynnal cyfrif ar wahân ar gyfer enillion yr ardoll.
- (2) Yn y Bennod hon, ystyr "enillion yr ardoll" yw'r swm a delir i brif gyngor gan ACC o dan adran 24A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (talau enillion net yr ardoll ymwelwyr i brif gynghorau).

23 Defnyddio enillion yr ardoll ar gyfer rheoli a gwella cyrchfannau

- (1) Rhaid i brif gyngor ddefnyddio enillion yr ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ei ardal.
- (2) At ddibenion yr adran hon ac adran 24, mae rheoli a gwella cyrchfannau yn cynnwys –
- (a) lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;
- (b) cynnal a hybu defnyddio'r Gymraeg;

- (c) hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- (d) darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau sydd i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt i'w defnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio).

5 **24 Adroddiad ar ddefnyddio enillion yr ardoll**

- (1) Rhaid i brif gyngor gyhoeddi adroddiad, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol y mae'r ardoll yn cael effaith ynddi yn ei ardal, ar enillion yr ardoll.
- (2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am y canlynol –
 - 10 (a) swm yr ardoll a gasglwyd yn y flwyddyn ariannol o dan sylw mewn cysylltiad ag ardal y prif gyngor, ac enillion yr ardoll ar gyfer y flwyddyn honno, a
 - (b) sut y mae enillion yr ardoll ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan sylw wedi cael eu defnyddio, neu sut y byddant yn cael eu defnyddio, gan y cyngor, a sut y mae'r defnydd hwnnw at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ardal y cyngor (gweler adran 23).
- 15 (3) Rhaid i'r prif gyngor gyhoeddi'r adroddiad –
 - (a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 30 Mehefin yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, a
 - (b) mewn unrhyw achos, heb fod yn hwyrach na diwedd y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
- 20 (4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon –
 - (a) i wneud darpariaeth ynghylch cynnwys adroddiad o dan yr adran hon;
 - (b) i newid –
 - 25 (i) nifer yr adroddiadau y mae rhaid eu cyhoeddi mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol;
 - (ii) pa mor aml y cyhoeddir adroddiadau;
 - (iii) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi adroddiad.

PENNOD 4

CYFLWYNO, NEWID NEU DDIDDYMU'R ARDOLL

30 **25 Ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll**

- 30 (1) Mae'r adran hon ac adran 26 yn nodi'r camau y mae rhaid i brif gyngor eu cymryd cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll yn ei ardal.
- (2) Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at newid yr ardoll yn gyfeiriadau at gyflwyno, newid neu ddileu premiwm.
- (3) Rhaid i'r prif gyngor –
 - 35 (a) hysbysu ACC am ei gynnig i gyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll (yn ôl y digwydd),
 - (b) cyhoeddi adroddiad sy'n nodi ei gynnig, gan gynnwys –

- (i) pan fo'n cynnig cyflwyno'r ardoll, amcangyfrif o enillion yr ardoll mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl cyflwyno'r ardoll ac amcangyfrif o'r costau y mae'n debygol o fynd iddynt mewn cysylltiad â'r cynnig;
- 5 (ii) pan fo'n cynnig newid yr ardoll, amcangyfrif o enillion yr ardoll mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl newid yr ardoll;
- (iii) pan fo'n cynnig diddymu'r ardoll, ddatganiad yn nodi pa effaith y disgwylir i ddiddymu'r ardoll ei chael ar referniw y cyngor mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl diddymu'r ardoll,
- 10 (c) anfon yr adroddiad hwnnw i ACC, a
- (d) ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol, ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod y briodol, am ei gynnis.
- (4) At ddibenion is-adran (3)(d), yr "ymgynghoreion gorfodol" yw –
- (a) pobl leol,
- 15 (b) y cyngor ar gyfer cymuned yn ardal y prif gyngor,
- (c) y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)) ar gyfer ardal y prif gyngor,
- (d) y prif gyngor ar gyfer ardal sy'n cyffinio ag ardal y cyngor sy'n ymgynghori,
- (e) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal y prif gyngor,
- 20 (f) cyd-bwyllgor corfforedig sy'n cynnwys o leiaf un prif aelod gweithrediaeth o'r prif gyngor yn aelod ohono, ac
- (g) sefydliadau sydd –
- (i) yn cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn ardal y prif gyngor;
- 25 (ii) yn hybu neu'n hyrwyddo twristiaeth yn ardal y cyngor.
- (5) Rhaid i'r prif gyngor ystyried ei gynnis gan roi sylw i unrhyw sylwadau a ddaw i'w law yn ystod yr ymgynghoriad o dan is-adran (3)(d).
- 30 (6) Rhaid i'r prif gyngor wedyn –
- (a) hysbysu ACC ynghylch a yw'r cyngor yn bwriadu bwrw ymlaen â'i gynnis,
- (b) cyhoeddi adroddiad ("adroddiad terfynol") sy'n cydymffurfio ag is-adran (7), ac
- (c) anfon yr adroddiad hwnnw i ACC.
- (7) Rhaid i'r adroddiad terfynol –
- 35 (a) nodi –
- (i) a yw'r prif gyngor yn bwriadu bwrw ymlaen â'i gynnis, a
- (ii) os yw'r cyngor yn bwriadu bwrw ymlaen â'i gynnis, fanylion y cynnis (gan gynnwys esboniad o unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynnis fel y'i nodwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd o dan is-adran (3)(b)), a
- 40 (b) crynhoi'r sylwadau a ddaeth i'w law yn ystod yr ymgynghoriad.

(8) Yn yr adran hon –

ystyr “cyd-bwyllgor corfforedig” (“*corporate joint committee*”) yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

mae i “prif aelod gweithrediaeth” (“*senior executive member*”) yr un ystyr ag yn adran 77(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(9) Gall camau a gymerir gan brif gyngor cyn i’r adran hon ddod i rym (gan gynnwys unrhyw gamau sy’n ymwneud ag anfon hysbysiad neu adroddiad i ACC) fodloni gofynion yr adran hon (ac adran 43(2) (gofynion o ran cyhoeddi)).

26 Cyflwyno’r ardoll a newid neu diddymu’r ardoll

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo prif gyngor –

(a) wedi cydymffurfio ag adran 25, a

(b) wedi penderfynu cyflwyno, diddymu neu newid yr ardoll.

(2) Rhaid i’r prif gyngor gyhoeddi hysbysiad sy’n nodi –

(a) pa un o’r camau a bennir yn is-adran (1)(b) y mae’n mynd i’w gymryd a (heblaw pan fo’r ardoll i’w diddymu) beth fydd cyfraddau’r ardoll,

(b) y dyddiad pryd y bydd yr ardoll (yn ôl y digwydd) –

(i) yn dod yn effeithiol yn ei ardal;

(ii) yn peidio â chael effaith yn ei ardal;

(iii) yn newid, ac

(c) unrhyw wybodaeth arall y mae’r cyngor yn ystyried ei bod yn briodol.

(3) O ran dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan is-adran (2) fel y dyddiad pryd y bydd yr ardoll yn dod yn effeithiol neu’n peidio â chael effaith yn ardal prif gyngor –

(a) ni chaiff fod cyn –

(i) diwedd y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad, neu

(ii) diwedd unrhyw gyfnod o lai na 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod hwnnw, y cytunir arno gan y prif gyngor ac ACC, a

(b) rhaid mai naill ai 1 Ebrill neu 1 Hydref yw’r dyddiad hwnnw.

(4) O ran dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan is-adran (2) fel y dyddiad pryd y bydd yr ardoll yn ardal prif gyngor yn newid –

(a) ni chaiff fod cyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad, a

(b) rhaid mai naill ai 1 Ebrill neu 1 Hydref yw’r dyddiad hwnnw.

(5) Mae cyflwyno, diddymu neu newid yr ardoll (yn ôl y digwydd) yn dod yn effeithiol ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad a gyhoeddir o dan is-adran (2).

(6) Mae’r gofyniad yn is-adran (2) i gyhoeddi hysbysiad yn ofyniad i gyhoeddi’r hysbysiad ar wefan y prif gyngor, ac mewn unrhyw fodd arall y mae’r cyngor yn ystyried ei fod yn briodol.

27 Arosiadau dros nos nad effeithir arnynt gan gyflwyno neu newid yr ardoll

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo'r ardoll wedi dod yn effeithiol yn ardal prif gyngor.
- (2) At ddibenion y Rhan hon, nid yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd os gwnaed y contract perthnasol cyn y dyddiad y penderfynodd y prif gyngor gyflwyno'r ardoll.
- (3) Mae is-adran (4) yn gymwys pan fo newid i'r ardoll wedi dod yn effeithiol yn ardal prif gyngor.
- (4) Nid yw'r newid i'r ardoll yn gymwys mewn perthynas ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr os gwnaed y contract perthnasol cyn y dyddiad y penderfynodd y prif gyngor newid yr ardoll.
- (5) Yn yr adran hon, "y contract perthnasol", mewn perthynas ag arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr, yw'r contract –
- (a) y mae gan un neu ragor o bobl hawlogaeth i breswyllo yn y llety hwnnw odano, a
- (b) y mae'r darparwr llety ymwelwyr yn barti iddo.
- (6) At ddibenion yr adran hon, y dyddiad y mae prif gyngor yn penderfynu cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll yw'r dyddiad y mae'n cyhoeddi hysbysiad o dan adran 26(2).

28 Dehongli'r Bennod

Yn y Bennod hon –

- (a) ystyr "pobl leol", mewn perthynas â phrif gyngor, yw pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y prif gyngor;
- (b) mae i "enillion yr ardoll" yr ystyr a roddir yn adran 22;
- (c) mae i gyfeiriadau at newid yr ardoll yr ystyr a roddir yn adran 25.

PENNOD 5

ACHOSION ARBENNIG

Busnes perthnasol

29 Ystyr "busnes perthnasol" yn y Bennod hon

Yn y Bennod hon, ystyr "busnes perthnasol" yw busnes, neu ran o fusnes, y mae person, yng nghwrs y busnes hwnnw –

- (a) yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru, a
- (b) yn feddiannydd ar y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr.

Partneriaethau a chyrrff anghorfforedig

30 Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrrff anghorfforedig

- (1) Pan fo'n ofynnol gwneud unrhyw beth, neu pan ganiateir gwneud unrhyw beth, o dan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll (heblaw Rhan 2 o'r Ddeddf hon) gan bersonau neu mewn perthynas â phersonau sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth, rhaid iddo gael ei wneud gan bob person neu mewn perthynas â phob person sy'n bartner ar yr adeg y'i gwneir neu y mae'n ofynnol ei wneud.

(2) Ond caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud gan bob partner gael ei wneud yn lle hynny gan unrhyw un neu ragor ohonynt; ac os yw prif fan busnes y bartneriaeth yn yr Alban, caniateir hefyd iddo gael ei wneud gan unrhyw berson arall a awdurdodir gan y bartneriaeth.

5 (3) Pan fo'n ofynnol gwneud unrhyw beth, neu pan ganiateir gwneud unrhyw beth, o dan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll (heblaw Rhan 2 o'r Ddeddf hon) gan bersonau neu mewn perthynas â phersonau sy'n cynnal busnes fel corff anghorfforedig, rhaid iddo gael ei wneud gan bob person neu mewn perthynas â phob person sy'n aelod rheoli o'r corff ar yr adeg y'i gwneir neu y mae'n ofynnol ei wneud.

10 (4) Ond caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud gan bob aelod rheoli o'r corff gael ei wneud yn lle hynny gan unrhyw un neu ragor ohonynt.

(5) Aelodau rheoli corff anghorfforedig yw –

(a) pob aelod o'r corff anghorfforedig sy'n dal swydd llywydd, cadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd, neu unrhyw swydd debyg;

15 (b) os nad oes unrhyw swydd o'r fath, pob aelod sy'n dal swydd aelod o bwyllgor sy'n rheoli materion y corff;

(c) os nad oes unrhyw swydd na phwyllgor o'r fath, pob aelod o'r corff.

20 (6) Mae atebolrwydd am dalu swm perthnasol o ganlyniad i unrhyw beth a wneir neu nas gwneir gan bersonau sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig yn atebolrwydd ar y cyd ac unigol i bob person sy'n aelod o'r bartneriaeth neu'r corff ar yr adeg y gwneir y peth neu'r adeg nas gwneir.

(7) Ond pan fo –

(a) personau yn cynnal busnes perthnasol mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig, a

25 (b) person yn aelod o'r bartneriaeth neu'r corff am ran o gyfnod cyfrifyddu yn unig, atebolrwydd personol y person am yr ardoll sydd i'w chodi mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu yw'r gyfran o'r atebolrwydd sy'n ymwneud â busnes y bartneriaeth neu'r corff sy'n deg ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "swm perthnasol" yw –

30 (a) swm o ardoll;

(b) cosb o dan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll;

(c) llog ar swm o fewn paragraff (a) neu (b).

31 **Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrrff anghorfforedig**

35 Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll ynglŷn ag achosion pan fo personau yn cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig, diddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu, neu ei diwygio fel arall.

Newid o ran personau sy'n darparu llety ymwelwyr

32 Marwolaeth, analluedd ac ansolfedd

- 5 (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo person ("A") yn cynnal busnes perthnasol person arall ("B") sydd wedi marw, wedi mynd yn analluog neu wedi dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd.
- (2) Rhaid i A roi hysbysiad i ACC ynglŷn ag –
- (a) y ffaith bod A yn cynnal y busnes perthnasol, a
 - (b) natur a dyddiad y digwyddiad sydd wedi arwain at y ffaith bod A yn cynnal y busnes hwnnw.
- 10 (3) Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dechreuodd A gynnal y busnes perthnasol.
- (4) Caiff ACC drin A fel pe bai A yn B at ddibenion yr ardoll, gydag effaith o'r adeg y dechreuodd A gynnal y busnes perthnasol; a chaiff ACC wneud hynny pa un a yw A wedi rhoi hysbysiad o dan is-adran (2) ai peidio.
- 15 (5) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i A, ac, os yw'n briodol, i B, am benderfyniad i drin A fel pe bai'n B.
- (6) Os yw –
- (a) B yn peidio â bod yn analluog neu'n ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu
 - (b) A yn peidio â chynnal busnes perthnasol B,
- 20 rhaid i A roi hysbysiad i ACC am y ffaith honno a'r dyddiad y digwyddodd hynny.
- (7) Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw.
- (8) Rhaid i ACC beidio â thrin A fel pe bai'n B os yw ACC wedi ei fodloni bod y naill neu'r llall o'r amodau yn is-adran (6) wedi ei fodloni (pa un a yw A wedi rhoi hysbysiad o dan yr is-adran honno ai peidio).
- 25 (9) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i A, ac, os yw'n briodol, i B, am benderfyniad i beidio â thrin A fel pe bai'n B.
- (10) At ddibenion yr adran hon, daw person yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd –
- (a) os gwneir y person yn fethdalwr;
 - 30 (b) os yw trefniant gwirfoddol ar ran cwmni yn cymryd effaith mewn perthynas â'r person o dan Ran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986 (p. 45);
 - (c) os yw'r person yn mynd i ddwylo'r gweinyddwr neu'n destun datodiad neu dderbynyddiad;
 - (d) os yw unrhyw ddigwyddiad cyfatebol yn digwydd sy'n cael effaith o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu o ganlyniad iddi.
- 35

33 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll ynglŷn ag achosion pan fo person sydd wedi cynnal busnes perthnasol yn marw, yn mynd yn analluog neu'n dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, diddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu, neu ei diwygio fel arall.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) –
- (a) ynglŷn â'r amgylchiadau pryd y mae person yn mynd yn analluog neu'n dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu'n peidio â bod yn analluog neu'n ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd;
 - (b) ynglŷn â dyletswyddau, atebolrwyddau a hawlogaethau sy'n ymwneud â'r ardoll pan fo person wedi marw, wedi mynd yn analluog neu wedi dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd;
 - (c) sy'n gymwys pa un a yw unrhyw un arall yn cynnal busnes perthnasol person ar ôl i'r person farw, fynd yn analluog neu ddod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd ai peidio;
 - (d) ar gyfer –
 - (i) cosbau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â'r rheoliadau, neu â gofynion a osodir ar bersonau heblaw ACC gan adran 32;
 - (ii) naill ai adolygiadau neu apelau neu'r ddau.

34 Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i sicrhau dilyniant wrth gymhwyso unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll pan drosglwyddir busnes perthnasol o un person i un arall fel busnes gweithredol.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) –
- (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC gael ei hysbysu am y trosglwyddiad;
 - (b) i unrhyw atebolrwydd neu ddyletswydd ar ran y trosglwyddwr sy'n ymwneud â'r ardoll ddod yn atebolrwydd neu'n ddyletswydd i'r trosglwyddai;
 - (c) i unrhyw hawlogaeth ar ran y trosglwyddwr i ollwng neu ad-dalu swm o ardoll, pa un a yw'n codi cyn y trosglwyddiad neu ar ei ôl, ddod yn hawlogaeth i'r trosglwyddai;
 - (d) i unrhyw beth a wnaed cyn y trosglwyddiad gan y trosglwyddwr neu mewn perthynas â'r trosglwyddwr gael ei drin at ddibenion yr ardoll fel pe bai wedi ei wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas â'r trosglwyddai;
 - (e) ynglŷn â dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel.
- (3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n gymwys yn ddarostyngedig i amodau, ac yn benodol cânt –
- (a) darparu ei bod yn ofynnol cael cymeradwyaeth ACC cyn cymhwyso unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (2)(b) i (e) i drosglwyddwr a throsglwyddai;
 - (b) gwneud darpariaeth ynglŷn â gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth a dyfarnu arnynt.

- (4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer –
- (a) cosbau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â'r rheoliadau;
 - (b) naill ai adolygiadau neu apelau neu'r ddau.
- (5) Caiff y rheoliadau ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll.

PENNOD 6

DARPARIAETH AMRYWIOL SY'N YMWNEUD Â'R ARDOLL

35 Llety ymwelwyr mewn mangre o fewn ardal mwy nag un prif gyngor

Pan na fo'r fangre lle y darperir llety ymwelwyr yn gyfan gwbl o fewn ardal un prif gyngor, mae'r fangre i'w thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai yn yr ardal lle y mae'r rhan fwy neu'r rhan fwyaf o'r fangre.

36 Trefniadau â thrydydd parti i gasglu'r ardoll etc. ar ran y darparwr

- (1) Caiff darparwr llety ymwelwyr wneud trefniadau i un neu ragor o bersonau wneud y canlynol ar ran y darparwr –
- (a) casglu symiau sy'n gyfwerth â swm yr ardoll mewn cysylltiad ag arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr;
 - (b) dychwelyd ffurflenni, neu dalu'r ardoll, i ACC;
 - (c) ad-dalu symiau a gasglwyd yn rhinwedd paragraff (a).
- (2) Nid yw gwneud trefniant o dan is-adran (1) yn effeithio ar rwymedigaethau darparwr llety ymwelwyr o dan neu yn rhinwedd y canlynol –
- (a) y Ddeddf hon, neu
 - (b) Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) (i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â'r ardoll).

37 Pŵer Gweinidogion Cymru i osod gofynion o ran hysbysebu a bilio etc.

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod gofynion ar ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre mewn ardal lle y mae prif gyngor wedi cyflwyno'r ardoll, neu wedi penderfynu ei chyflwyno, sy'n ymwneud â'r canlynol –
- (a) cynnwys gwybodaeth ynghylch swm yr ardoll sy'n daladwy ar arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr mewn anfoneb, derbynneb neu ddogfen arall a ddarperir mewn cysylltiad â'r arhosiad hwnnw;
 - (b) pryd a sut y mae gwybodaeth sy'n ymwneud â bodolaeth, natur, a swm yr ardoll i'w darparu.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(b) ei gwneud yn ofynnol (ymysg pethau eraill) –
- (a) bod arwydd (ym mha le bynnag, pa bryd bynnag neu ym mha ffordd bynnag y'i rhoddir) o'r swm sy'n daladwy am arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn cynnwys gwybodaeth am swm yr ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r arhosiad;

- (b) bod deunydd hybu a marchnata a gwybodaeth arall a roddir ar gael mewn perthynas â llety ymwelwyr yn cynnwys gwybodaeth am swm yr ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad ag arosiadau dros nos yn y llety;
- (c) bod gwybodaeth am swm yr ardoll sy'n daladwy mewn cysylltiad ag arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn cael ei harddangos mewn llety ymwelwyr.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) –

- (a) rhoi pŵer i osod sancsiwn sifil ar berson nad yw wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau, pa un a yw'r person sy'n gosod y sancsiwn sifil yn rheoleiddiwr at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13) ai peidio, a
- (b) gwneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn sancsiynau sifil a osodir yn rhinwedd paragraff (a).

(4) Yn is-adran (3) ystyr "sancsiwn sifil" yw sancsiwn o fath y caniateir gwneud darpariaeth ar ei gyfer o dan Ran 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (cosbau ariannol penodedig, gofynion yn ôl disgrisiwn, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi).

(5) At ddibenion yr adran hon, mae prif gyngor wedi penderfynu cyflwyno'r ardoll os yw wedi cyhoeddi hysbysiad o dan adran 26 yn datgan ei fod yn mynd i gyflwyno'r ardoll.

38 Prif gyngor yn arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon etc.

- (1) Ni chaiff swyddogaethau prif gyngor o dan y Rhan hon (ac adran 39(2) (canllawiau)) fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth y prif gyngor o dan drefniadau gweithrediaeth.
- (2) Nid yw adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i swyddogaethau prif gyngor o dan y Rhan hon (ac adran 39(2)).

(3) Yn is-adran (1) –

mae "gweithrediaeth" ("*executive*") i'w ddehongli yn unol ag adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22);

mae i "trefniadau gweithrediaeth" yr un ystyr ag a roddir i "*executive arrangements*" yn adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(4) Yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/399), yn Atodlen 1 (swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth), yn y tabl yn Rhan 1 (swyddogaethau amrywiol), ar ôl paragraff 19 mewnosoder –

"20. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag ardoll ymwelwyr	Rhan 3 ac adran 39(2) o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00)".
--	---

RHAN 4

DARPARIAETH AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Amrywiol

39 Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru

- 5 (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch y Ddeddf hon ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon, ond cyn dyroddi unrhyw ganllawiau o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- 10 (2) Rhaid i brif gyngor, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 (gan gynnwys wrth ystyried a ddylid arfer swyddogaeth o dan y Rhan honno), roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

40 Pŵer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd

15 Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r Ddeddf hon, a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6), fel bod y naill neu'r llall o Rannau 2 a 3 o'r Ddeddf hon, neu'r ddwy ohonynt, yn gymwys neu'n cael eu hatgynhyrchu, gydag addasiadau neu hebddynt, mewn cysylltiad â docfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau.

Cyffredinol

41 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

- 20 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau –
- (a) gwneud darpariaeth sy'n ddeilliadol neu'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu sy'n ganlyniadol ar unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon;
 - (b) gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.
- 25 (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

42 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

- (1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.
- (2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer –
- 30 (a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol;
 - (b) i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.
- 35 (3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2)(b) yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn addasu, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

(4) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad –

(a) rheoliadau o dan adran 2(5);

(b) rheoliadau o dan adran 4(5);

(c) rheoliadau o dan adran 5(2);

(d) rheoliadau o dan adran 7;

(e) rheoliadau o dan adran 9(5);

(f) rheoliadau o dan adran 12(2);

(g) rheoliadau o dan adran 13(4);

(h) rheoliadau o dan adran 13(5);

(i) rheoliadau o dan adran 14(3);

(j) rheoliadau o dan adran 15(6);

(k) rheoliadau o dan adran 31;

(l) rheoliadau o dan adran 33(1);

(m) rheoliadau o dan adran 34(1);

(n) rheoliadau o dan adran 37(1);

(o) rheoliadau o dan adran 40;

(p) rheoliadau o dan adran 41(1), pan fo'r rheoliadau yn diwygio, yn addasu neu'n diddymu deddfiad a gynhwysir mewn deddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

(5) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w annilysu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw'r canlynol –

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur gan y Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

43 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon –

ystyr "ACC" ("WRA") yw Awdurdod Cyllid Cymru;

mae "arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr" ("overnight stay in visitor accommodation") i'w ddehongli yn unol ag adran 9;

mae "darparu" ("provide"), mewn perthynas â darparu llety ymwelwyr, i'w ddehongli yn unol ag adran 3;

mae "darparwr llety ymwelwyr" ("visitor accommodation provider") a "DLIY" ("VAP") i'w ddehongli yn unol ag adran 3;

ystyr "ffurflen" ("return") yw ffurflen o'r math a grybwyllir yn adran 16;

ystyr “llestr” (“*vessel*”) yw llong, cwch, rafft, neu gyfarpar arall a adeiladwyd neu a addaswyd i arnofio ar ddŵr, ac a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo;

mae i “llety ymwelwyr” (“*visitor accommodation*”) yr ystyr a roddir gan adran 2;

ystyr “noson” (“*night*”) yw cyfnod sy’n dechrau ar un diwrnod ac sy’n dod i ben ar y diwrnod nesaf;

ystyr “partneriaeth” (“*partnership*”) yw –

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaeth 1890 (p. 39),

(b) partneriaeth gyfyngedig a gofrestrwyd o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p. 24), neu

(c) partneriaeth neu endid tebyg ei gymeriad a ffurfiwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i’r Deyrnas Unedig;

mae i “premiwm” (“*premium*”) yr ystyr a roddir yn adran 14(2);

ystyr “prif gyngor” (“*principal council*”) yw cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

(2) Pan fo’r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i gyhoeddi penderfyniad, adroddiad neu ddogfen arall heblaw hysbysiad, rhaid i’r penderfyniad, yr adroddiad neu’r ddogfen arall –

(a) cael ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi –

(i) ar wefan y prif gyngor, a

(ii) mewn unrhyw fodd arall y mae’r prif gyngor yn ystyried ei fod yn briodol;

(b) cael ei roi ar gael i edrych arno, neu ei rhoi ar gael i edrych arni, (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd y prif gyngor am o leiaf 12 mis ar ôl iddo gael ei gyhoeddi neu iddi gael ei chyhoeddi gyntaf.

44 Dod i rym

(1) Daw’r Rhan hon, a Rhannau 1 a 3, i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2) wneud –

(a) darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn Rhan 2 i rym;

(b) darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol (yn ogystal ag at ddibenion gwahanol).

45 Enw byr

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel –

(a) Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, neu

(b) the Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Act 2025.

ATODLEN 1
(A gyflwynir gan adran 21)

DIWYGIO DEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

Cyflwyniad

5 1 Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6) (“Deddf 2016”) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

Diwygio cyfeiriadau at “treth ddatganoledig” etc. yn Neddf 2016

- 10 2 Yn lle “datganoledig” a “ddatganoledig”, ym mhob lle y maent yn digwydd yn Neddf 2016 (ac yn ddarostyngedig i’r diwygiadau eraill y darperir ar eu cyfer yn yr Atodlen hon), rhodder “a gesglir gan ACC”; ond nid yn y darpariaethau a ganlyn –
- (a) adran 1(ba) (trosolwg o’r Ddeddf);
 - (b) adran 12(2)(b) (a ddiwygir gan baragraff 3) (prif swyddogaethau ACC);
 - (c) adran 18(1)(j) (datgelu a ganiateir sy’n ymwneud â threthi datganoledig yr Alban);
 - (d) adran 25 (a ddiwygir gan baragraff 7) (talu i Gronfa Gyfunol Cymru);
 - 15 (e) adran 26(2) (a ddiwygir gan baragraff 8) (Siarter safonau a gwerthoedd);
 - (f) Rhan 3A (y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi);
 - (g) adran 117A (a fewnosodir gan baragraff 18) (dehongli a chymhwyso Rhan 5 o Ddeddf 2016 mewn perthynas â’r ardoll ymwelwyr);
 - (h) adrannau 118 i 120, a’r pennawd italig sy’n dod o’u blaenau (diwygir y
 - 20 darpariaethau hynny gan baragraffau 19 i 22) (cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth);
 - (i) yn adran 122(3), yn Nhabl A1, eitem 7 (dyddiadau cosbi sy’n ymwneud â’r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi);
 - (j) adran 122A (cosbau pellach am barhau i fethu â thalu treth ddatganoledig);
 - 25 (k) adran 136(5) (refeniw posibl a gollir: gwrthbwysu trethi datganoledig);
 - (l) yn adran 192(2) (dehongli), yn y diffiniadau o –
 - (i) “treth ddatganoledig”;
 - (ii) “trethdalwr datganoledig” (a hepgorir gan baragraff 35(a)(i));
 - (iii) “DTTT”;
 - 30 (iv) “treth a gesglir gan ACC” (a fewnosodir gan baragraff 35(a)(ii));
 - (m) adran 193 (mynegai o ymadroddion a ddiffinnir).

Diwygio Rhan 2 o Ddeddf 2016

3 Yn adran 12(2) (prif swyddogaethau) –

- (a) ym mharagraff (b), yn lle “threthi datganoledig i drethdalwyr datganoledig” rhodder “threthi a gesglir gan ACC i drethdalwyr”;
- (b) ar ôl paragraff (d) mewnosoder –

5 “(e) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â’r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau.”

4 Ar ôl adran 15(1) (cyfarwyddydau cyffredinol) mewnosoder –

10 “(1A) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1) nad yw’n ymwneud ond â swyddogaethau ACC sy’n ymwneud â’r ardoll ymwelwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr yn ei ardal.”

5 Yn adran 18(1) (datgelu a ganiateir), o flaen paragraff (a) mewnosoder –

“(za) os gwneir hynny at ddibenion swyddogaethau ACC, heblaw’r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 12(2)(a) ac (e), a (3),”.

15 6 Ar ôl adran 24 mewnosoder –

“24A Talu enillion net yr ardoll ymwelwyr i brif gynghorau

- 20 (1) Rhaid i ACC, mewn perthynas â phob sir neu fwrdeistref sirol y mae’r ardoll ymwelwyr wedi ei chyflwyno ynddi, gadw cyfrif ar wahân ar gyfer enillion yr ardoll ymwelwyr a gesglir mewn cysylltiad â’r sir neu’r fwrdeistref sirol honno.
- (2) Rhaid i ACC dalu enillion yr ardoll ymwelwyr a gesglir bob blwyddyn ariannol mewn cysylltiad ag ardal prif gyngor (gan gynnwys unrhyw log ar yr enillion) i’r prif gyngor hwnnw, yn ddim hwyrach nag –
- 25 (a) 30 Mehefin yn y flwyddyn ariannol ganlynol, neu
- (b) unrhyw ddyddiad arall y cytunir arno rhwng ACC a’r prif gyngor.
- (3) Ond, yn ddarostyngedig i reoliadau o dan is-adran (5), rhaid i ACC wneud hynny ar ôl didynnu o’r enillion a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol unrhyw symiau y mae ACC yn ystyried eu bod yn briodol o ran y costau y mae wedi mynd iddynt mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno mewn perthynas â’r ardoll ymwelwyr ar gyfer yr ardal honno.
- 30 (4) Caiff ACC hefyd, yn ddarostyngedig i reoliadau o dan is-adran (5), ddidynnu o’r enillion a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol unrhyw symiau y mae ACC yn ystyried eu bod yn briodol o ran costau y mae ACC yn ystyried y gallai fynd iddynt ac alldaliadau y mae ACC yn ystyried y gallent ddod yn daladwy –
- 35 (a) mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol mewn perthynas â’r ardoll ymwelwyr ar gyfer yr ardal honno, ond
- 40 (b) ar ôl iddo dalu’r enillion ar gyfer y flwyddyn honno i’r prif gyngor.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch didynnu symiau o ran costau, neu ddidynnu alldaliadau, gan gynnwys darpariaeth –

(a) sy'n cyfyngu ar faint o gostau neu alldaliadau y caniateir i ACC eu didynnu (gan gynnwys drwy gyfeirio at ganran o'r alldaliadau neu'r costau yr eir iddynt neu at uchafswm y caniateir ei ddidynnu, neu drwy ddulliau eraill);

(b) ynghylch sut y mae costau ac alldaliadau i'w dosrannu rhwng prif gynghorau sydd wedi cyflwyno'r ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd;

(c) sy'n pennu mathau o gost neu alldaliad y caniateir, y mae rhaid, neu na chaniateir eu didynnu.

(6) At ddibenion yr adran hon –

(a) mae cyfeiriadau at enillion yr ardoll ymwelwyr yn cynnwys unrhyw gosbau ariannol a gesglir mewn perthynas â'r ardoll;

(b) nid yw taliadau i brif gynghorau o dan is-adran (2) yn alldaliadau."

Yn adran 25 (talu derbyniadau i Gronfa Gyfunol Cymru) –

(a) yn is-adran (1), ar ôl "swyddogaethau" mewnosoder "sy'n ymwneud â threthi datganoledig";

(b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

"(3) Rhaid i ACC dalu i Gronfa Gyfunol Cymru symiau a ddidynnir o dan adran 24A(3) neu (4), mewn cysylltiad â chostau, o enillion yr ardoll ymwelwyr."

Yn adran 26(2) (Siarter safonau a gwerthoedd) –

(a) hepgorer "datganoledig" yn y ddau le y mae'n digwydd;

(b) ar ôl "eu hasiantiaid", yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder ", prif gynghorau".

Yn adran 27 (cynllun corfforaethol), ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

"(2A) Cyn cyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid i ACC ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr yn ei ardal ar unrhyw amcanion, unrhyw ganlyniadau neu unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr."

Yn adran 29 (cyfrifon), ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

"(2A) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1)(b) nad yw'n ymwneud ond â'r ardoll ymwelwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll ymwelwyr yn ei ardal."

11 Yn adran 30 (datganiad treth), ar ôl is-adran (1) mewnosoder –

“(1A) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1) nad yw’n ymwneud ond â’r ardoll ymwelwyr, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob prif gyngor sydd wedi cyflwyno, neu wedi penderfynu cyflwyno, yr ardoll yn ei ardal.”

12 Yn adran 31 (archwilio), yn is-adran (4)(b), ar ôl “adran” mewnosoder “24A neu”.

Diwygio Rhan 3 o Ddeddf 2016

13 Yn adran 40 (ystyr “dyddiad ffeilio”) –

(a) daw’r ddarpariaeth bresennol yn is-adran (1);

(b) ar ôl yr is-adran honno mewnosoder –

“(2) Yn y Ddeddf hon, mae i “dyddiad ffeilio”, mewn perthynas â ffurflen ardoll ymwelwyr, yr ystyr a roddir gan adran 16 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00).”

14 Yn adran 58 (amodau ar gyfer gwneud asesiadau ACC), ar ôl is-adran (4) mewnosoder –

“(5) At ddibenion is-adran (3)(c), ystyrir bod gwybodaeth wedi ei darparu i ACC –

(a) os yw wedi ei chynnwys mewn ffurflen dreth,

(b) os yw wedi ei chynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynir neu unrhyw wybodaeth a ddarperir i ACC at ddibenion ymholiad i unrhyw ffurflen o’r fath, neu

(c) os yw’n wybodaeth –

(i) y gellid disgwyl yn rhesymol i ACC gasglu ei bod yn bodoli o wybodaeth sy’n dod o fewn paragraff (a) neu (b), neu

(ii) y mae’r trethdalwr neu berson sy’n gweithredu ar ran y trethdalwr yn hysbysu ACC yn ysgrifenedig ei bod yn bodoli.”

Diwygio Rhan 3A o Ddeddf 2016

15 Ym mhennawd Rhan 3A o Ddeddf 2016 (y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi), ar y diwedd mewnosoder “: TRETHI DATGANOLEDIG”.

16 Yn Rhan 3A o Ddeddf 2016 –

(a) yn adran 81A(1) (ystyr “y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi”), ar ôl “gwneud darpariaeth” mewnosoder “, sy’n ymwneud â threthi datganoledig,”;

(b) ar ôl “trethdalwr” a “drethdalwr”, ym mhob lle y maent yn digwydd, mewnosoder “datganoledig”.

Diwygio Rhan 4 o Ddeddf 2016

17 Yn adran 86 (hysbysiadau trethdalwr), yn lle is-adran (2) rhodder –

“(2) Cyn dyroddi hysbysiad trethdalwr caiff ACC (ond nid oes angen iddo, yn ddarostyngedig i adran 97(2)) wneud cais i’r tribiwnlys am gymeradwyaeth i ddyroddi’r hysbysiad.”

Diwygio Rhan 5 o Ddeddf 2016

5 18 Ar ôl adran 117 (trosolwg o Ran 5) mewnosoder –

“117A Dehongli a chymhwyso’r Rhan hon mewn perthynas â’r ardoll ymwelwyr

(1) Yn y Rhan hon –

10 mae i “darparwr llety ymwelwyr” (“*visitor accommodation provider*”) and “DLIY” (“*VAP*”) yr un ystyr ag yn adran 3 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00);

15 ystyr “ffurflen ardoll ymwelwyr” (“*visitor levy return*”) yw ffurflen sy’n ymwneud â’r ardoll ymwelwyr (gweler adran 16 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025);

ystyr “ffurflen treth ddatganoledig” (“*devolved tax return*”) yw ffurflen dreth sy’n ymwneud â threth ddatganoledig.

20 (2) Pan na fo darparwr llety ymwelwyr erioed wedi dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr nac wedi datgan i ACC a fydd y darparwr yn dychwelyd ffurflenni blynyddol neu ffurflenni chwarterol, mae’r darparwr i’w drin at ddibenion y Rhan hon fel darparwr sy’n dychwelyd ffurflenni blynyddol.”

19 Yn y pennawd italig o flaen adran 118, yn lle “ffurflen dreth” rhodder “ffurflen treth
25 ddatganoledig”.

20 Yn adran 118 (cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny) –

(a) yn y pennawd, yn lle “ffurflen dreth” rhodder “ffurflen treth ddatganoledig”;

30 (b) yn is-adran (1), yn lle “ffurflen dreth”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “ffurflen treth ddatganoledig”.

21 Yn adran 119 (cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth o fewn 6 mis wedi’r dyddiad ffeilio) –

(a) yn y pennawd, yn lle “ffurflen dreth” rhodder “ffurflen treth ddatganoledig”;

35 (b) yn is-adran (1), yn lle “ffurflen dreth”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “ffurflen treth ddatganoledig”.

22 Yn adran 120 (cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth o fewn 12 mis wedi’r dyddiad ffeilio) –

(a) yn y pennawd, yn lle “ffurflen dreth” rhodder “ffurflen treth ddatganoledig”;

40 (b) yn is-adran (1), yn lle “ffurflen dreth”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “ffurflen treth ddatganoledig”;

- (c) yn is-adran (2), yn lle “dychwelyd y ffurflen dreth” rhodder “dychwelyd y ffurflen treth ddatganoledig”.

23 Ar ôl adran 120 mewnosoder –

“Pwyntiau cosb a chosbau am fethiannau i dychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr

5

120A Pwynt cosb am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny

10

- (1) Mae darparwr llety ymwelwyr (“DLIY”) yn agored i bwynt cosb os yw’r darparwr yn methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr ar ddyddiad ffeilio’r ffurflen neu cyn hynny.

15

- (2) Pan fo DLIY yn agored i bwynt cosb, caiff ACC ddyfarnu’r pwynt cosb drwy roi hysbysiad i’r DLIY.

- (3) Rhaid rhoi hysbysiad o dan is-adran (2) –

(a) os yw’r DLIY yn dychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr blynyddol, cyn diwedd y cyfnod o 48 o wythnosau sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl dyddiad ffeilio’r ffurflen;

(b) os yw’r DLIY yn dychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr chwarterol, cyn diwedd y cyfnod o 11 o wythnosau sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl dyddiad ffeilio’r ffurflen.

20

- (4) Caiff ACC dynnu pwynt cosb a ddyfarnwyd o dan yr adran hon yn ôl drwy roi hysbysiad i’r DLIY; a phan dynnir pwynt cosb yn ôl, mae’r DLIY i’w drin fel pe na bai erioed wedi cael y pwynt cosb.

120B Cosb ariannol pan fo pwyntiau cosb wedi eu dyfarnu

25

- (1) Os yw DLIY, ar ôl i bwynt cosb gael ei ddyfarnu iddo, yn cyrraedd y trothwy cosbau, mae’r DLIY yn agored i gosb o £100.

- (2) Y trothwy cosbau yw –

(a) os yw’r DLIY yn dychwelyd ffurflenni blynyddol, dau bwynt cosb, a

(b) os yw’r DLIY yn dychwelyd ffurflenni chwarterol, pedwar pwynt cosb.

30

- (3) Mae DLIY sy’n dod yn agored i gosb o dan is-adran (1) yn parhau i fod yn agored i’r gosb honno ni waeth a yw unrhyw un neu ragor o’r pwyntiau cosb a ddyfarnwyd i’r DLIY yn dod i ben wedi hynny.

120C Pwyntiau cosb yn dod i ben

35

- (1) Mae pwynt cosb a ddyfarnwyd i DLIY mewn perthynas â methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr flynyddol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 24 mis sy’n dechrau â dyddiad ffeilio’r ffurflen y mae’r pwynt cosb yn ymwneud â hi.

- (2) Mae pwynt cosb a ddyfarnwyd i DLIY mewn perthynas â methu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr chwarterol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â dyddiad ffeilio'r ffurflen y mae'r pwynt cosb yn ymwneud â hi.

5

120D Newid pa mor aml y mae rhaid ffeilio ffurflenni pan fydd gan ddarparwr bwynt cosb

Ni chaiff DLIY sydd ag un neu ragor o bwyntiau cosb nad ydynt wedi dod i ben newid pa mor aml y mae'n dychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr (o ran hynny, gweler adran 17 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00)).

10

120E Cosb ariannol am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr o fewn 6 mis wedi'r dyddiad ffeilio

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo methiant DLIY i ddychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad ffeilio.

15

- (2) Mae'r DLIY yn agored i gosb o £100 (ni waeth a ddyfarnwyd unrhyw bwyntiau cosb nad ydynt wedi dod i ben i'r DLIY, neu a yw'n agored i unrhyw bwyntiau cosb, mewn perthynas â'r ffurflen o dan sylw neu unrhyw ffurflen ardoll ymwelwyr arall).

20

120F Cosb ariannol am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr o fewn 12 mis wedi'r dyddiad ffeilio

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo methiant DLIY i ddychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr yn parhau ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad ffeilio.

25

- (2) Mae'r DLIY yn agored i gosb (ni waeth a ddyfarnwyd unrhyw bwyntiau cosb nad ydynt wedi dod i ben i'r DLIY, neu a yw'n agored i unrhyw bwyntiau cosb, mewn perthynas â'r ffurflen sydd o dan sylw neu ag unrhyw ffurflen ardoll ymwelwyr arall).

30

- (3) Pan fo'r DLIY, drwy fethu â dychwelyd y ffurflen ardoll ymwelwyr, yn atal yn fwriadol wybodaeth a fyddai'n galluogi neu'n cynorthwyo ACC i asesu rhwymedigaeth y DLIY i'r ardoll ymwelwyr, y gosb yw –

(a) £300, neu

(b) swm uwch, heb fod yn fwy na 95% o'r swm o ardoll ymwelwyr y byddai'r person wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen ardoll ymwelwyr wedi ei dychwelyd.

35

- (4) Mewn unrhyw achos nad yw'n dod o fewn is-adran (3), y gosb yw'r mwyaf o'r canlynol –

(a) 5% o'r swm o ardoll ymwelwyr y byddai'r DLIY wedi bod yn agored i'w dalu pe byddai'r ffurflen ardoll ymwelwyr wedi ei dychwelyd, a

40

(b) £300.

Gostwng cosb am ddatgelu gwybodaeth".

24 Yn adran 121(1) (gostwng cosb am fethu â dychwelyd ffurflen dreth: datgelu), yn lle "neu 120" rhodder ", 120, 120B, 120E neu 120F".

25 Yn adran 122 (cosb am fethu â thalu treth mewn pryd) –

(a) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (b) mewnosoder –

"(c) mewn cysylltiad â swm o ardoll ymwelwyr, yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd, ond –

(i) os yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100;

(ii) os yw 5% o swm yr ardoll nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000.";

(b) yn is-adran (3), yn lle "122ZA a 122A" rhodder "122ZA, 122A a 122B";

(c) yn Nhabl A1, ar ôl eitem 2 mewnosoder –

"2A	Ardoll ymwelwyr	Swm sy'n daladwy o ganlyniad i ffurflen ardoll ymwelwyr.	Y dyddiad sydd 30 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen ardoll ymwelwyr."
-----	-----------------	--	---

26 Ar ôl adran 122A (cosbau pellach am barhau i fethu â thalu treth ddatganoledig) mewnosoder –

"122B Cosbau pellach am barhau i fethu â thalu ardoll ymwelwyr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo DLIY yn agored i gosb o dan adran 122 mewn cysylltiad â methu â thalu swm o ardoll ymwelwyr ar y dyddiad cosbi ar gyfer y swm hwnnw, neu cyn hynny.

(2) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r DLIY yn agored i gosb bellach.

(3) Y gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu, ond –

(a) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100;

(b) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000.

(4) Os yw unrhyw swm yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod sydd 30 o ddiwrnodau cyn y dyddiad cosbi, mae'r DLIY yn agored i ail gosb bellach.

(5) Yr ail gosb bellach yw 5% o'r swm sy'n parhau i fod heb ei dalu, ond –

(a) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn llai na £100, y gosb yw £100;

(b) os yw 5% o'r swm nas talwyd yn fwy na £5000, y gosb yw £5000."

- 27 Yn adran 126 (esgus rhesymol dros fethu â dychwelyd ffurflen dreth neu dalu treth neu swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â chredyd treth) –
- (a) yn is-adran (1), ar ôl “120” mewnosoder “, 120B, 120E neu 120F, neu (yn ôl y digwydd) i bwynt cosb o dan adran 120A,”;
- 5 (b) yn is-adran (2), yn lle “122A” rhodder “122B”.
- 28 Yn adran 127 (asesu cosbau o dan Bennod 2) –
- (a) yn is-adrannau (3) a (4), yn lle “neu 120” rhodder “, 120 neu 120F”;
- (b) yn is-adran (5), yn lle “122ZA neu 122A” rhodder “122ZA, 122A neu 122B”;
- (c) yn is-adran (6), yn lle “122ZA neu 122A” rhodder “122ZA, 122A neu 122B”.
- 10 29 Yn adran 128(2) (terfyn amser ar gyfer asesu cosbau o dan Bennod 2) –
- (a) ym mharagraff (a), ar ôl “ffurflen dreth” mewnosoder “, heblaw pan gyfyd rhwymedigaeth i'r gosb o dan adran 120B”;
- (b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder –
- 15 “(aa) yn achos rhwymedigaeth i gosb o dan adran 120B (cosb ariannol pan fo pwyntiau cosb wedi eu dyfarnu), â dyddiad ffeilio'r ffurflen y dyfarnwyd y pwynt cosb a achosodd i'r darparwr llety ymwelwyr gyrraedd y trothwy cosbau mewn perthynas â hi,”.

Diwygio Rhan 8 o Ddeddf 2016

- 30 Yn adran 172 (penderfyniadau apeliadwy) –
- 20 (a) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (d) mewnosoder –
- “(da) penderfyniad sy'n ymwneud â phwynt cosb am fethu â dychwelyd ffurflen ardoll ymwelwyr (o fewn ystyr Rhan 5);
- (db) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad trethdalwr, neu i gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, pan na
- 25 chymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad;”;
- (b) yn is-adran (3), ym mharagraffau (b)(i) ac (c)(i), ar ôl “trethdalwr” mewnosoder “pan gymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad”.

Diwygio Rhan 10 o Ddeddf 2016

- 31 Ar ôl adran 187A mewnosoder –
- 30 “**187B Cymhwyso i'r Goron at ddibenion yr ardoll ymwelwyr**
- (1) Mae'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn rhwymo'r Goron.
- (2) Nid yw'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith
- 35 trosedd, ond mae'n gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.
- (3) Yn is-adrannau (1) a (2), mae cyfeiriadau at “y Ddeddf hon” yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfiad a wneir o dan y Ddeddf hon.”

- 32 Yn adran 189(2) (rheoliadau), ar ôl "18(2)," mewnosoder "24A(5),".
- 33 (1) Mae adran 190 (dyroddi hysbysiadau gan ACC) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1), ar ôl "darpariaeth yn" mewnosoder "Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00), yn".
- 5 (3) Yn is-adran (6) –
- (a) ym mharagraff (a) –
- (i) ar ôl "corff corfforaethol," mewnosoder "naill ai –
- (i) ";
- (ii) yn lle "corff;" rhodder "corff, neu
- 10 (ii) pan fo'r ffurflen dreth ddiweddaraf a ddychwelwyd gan y corff i ACC yn cynnwys cyfeiriad yr honnir ei fod yn gyfeiriad y corff, y cyfeiriad hwnnw;"
- (b) ym mharagraff (b) –
- (i) ar ôl "partneriaeth," mewnosoder "naill ai –
- 15 (i) ";
- (ii) yn lle "bartneriaeth;" rhodder "bartneriaeth, neu
- (ii) pan fo'r ffurflen dreth ddiweddaraf a ddychwelwyd gan y bartneriaeth i ACC yn cynnwys cyfeiriad yr honnir ei fod yn gyfeiriad y bartneriaeth, y cyfeiriad hwnnw;"
- 20 34 Yn adran 191 (rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill i ACC) –
- (a) yn is-adran (1), ar ôl "darpariaeth yn" mewnosoder "Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, yn";
- (b) yn is-adran (3), ar ôl "Neddfau Trethi Cymru" mewnosoder "neu yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025,".
- 25 35 Yn adran 192 (dehongli) –
- (a) yn is-adran (2) –
- (i) hepgorer y diffiniad o "trethdalwr datganoledig";
- (ii) yn y lleoedd priodol mewnosoder –
- 30 "mae i "ardoll ymwelwyr" ("visitor levy") yr un ystyr ag yn Rhan 3 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00);";
- "ystyr "prif gyngor" ("principal council") yw cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;"
- "ystyr "treth a gesglir gan ACC" ("WRA-collected tax") yw –
- 35 (a) treth ddatganoledig, neu
- (b) yr ardoll ymwelwyr;"
- "ystyr "trethdalwr" ("taxpayer") yw person sy'n atebol am dalu treth a gesglir gan ACC;"
- (b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

“(3) At ddibenion y Ddeddf hon, mae prif gyngor wedi penderfynu cyflwyno’r ardoll ymwelwyr os yw wedi cyhoeddi hysbysiad o dan adran 26 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 yn datgan ei fod yn mynd i gyflwyno’r ardoll ymwelwyr.”

5 36 Yn adran 193 (mynegai o ymadroddion a ddiffinnir), yn Nhabl 1 –

(a) yn y cofnod ar gyfer “Trethdalwr datganoledig”, yn yr ail golofn, yn lle “adran 192(2)” rhodder “adran 81B(3)(c)”;

(b) yn y lleoedd priodol mewnosoder –

	“Ardoll ymwelwyr (“ <i>visitor levy</i> ”)	adran 192(2)”;
10	“Darparwr llety ymwelwyr (“ <i>visitor accommodation provider</i> ”) a DLIY (“ <i>VAP</i> ”)	adran 117A(1)”;
	“Ffurflen ardoll ymwelwyr (“ <i>visitor levy return</i> ”)	adran 117A(1)”;
15	“Ffurflen treth ddatganoledig (“ <i>devolved tax return</i> ”)	adran 117A(1)”;
	“Prif gyngor (“ <i>principal council</i> ”)	adran 192(2)”;
	“Prif gyngor sydd wedi penderfynu cyflwyno’r ardoll ymwelwyr (“ <i>principal council that has decided to introduce the visitor levy</i> ”)	adran 192(3)”;
20	“Treth a gesglir gan ACC (“ <i>WRA-collected tax</i> ”)	adran 192(2)”;
	“Trethdalwr (“ <i>taxpayer</i> ”)	adran 192(2)”.